CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Mawrth 8, 2016 am 7.30 o'r gloch.

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau:

2. Datgan diddordeb:

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 9, 2016

4. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 9, 2016

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (11/2/2016) oddi wrth Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch yn diolch am ein rhodd o £50.

b. Llythyr (11/2/2016) oddi wrth Neuadd Bentref Bontddu yn diolch am ein rhodd o £50.

c. Llythyr (11/2/2016) oddi wrth Age Cymru Gwynedd a Môn yn diolch am ein rhodd o £50.

ch. Llythyr (11/2/2016) oddi wrth Marie Curie yn diolch am ein rhodd o £50.

d. Llythyr (11/2/2016) oddi wrth Gisda yn diolch am ein rhodd o £50.

dd. Llythyr (12/2/2016) oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £50.

e. Llythyr (12/2/2016) oddi wrth Cyngor ar Bopeth Gwynedd a De Ynys Môn yn diolch am ein rhodd o £100.

f. Llythyr (15/2/2016) oddi wrth Canolfan Therapi Plant Cymru yn diolch am ein rhodd o £50.

ff. Llythyr (15/2/2016) oddi wrth Sioe Frenhinol Cymru 2016 – Apel Cylch Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £50.

g. Llythyr (16/2/2016) oddi wrth Ambiwlans Cymru yn diolch am ein rhodd o £300.

h. Bil (17/02/2015) am £82.47 oddi wrth Dŵr Cymru at tâl gwasanaethu Toiledau Cyhoeddus Bontddu. Mae'n cael ei dalu drwy DD. (Bil am yr un cyfnod flwyddyn ddiwethaf oedd £134.61).

i. Ffurflen (Chwefror 2016) oddi wrth Tower Mint Ltd gyda chyfle i archebu medal i ddathlu penblwydd Ei Mawrhydi Elizabeth yn 90. Amgâu mae sampl o'r fedal.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (5 Chwefror 2016) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd yn gwadd aelodau Cynghorau Cymuned a Thref i gyfarfod i drafod:

1. toriadau i wasanaethau bydd yn cael eu gwneud gan Cyngor Gwynedd a'r oblygiadau bydd y rhain yn cael yn ein hardal,

2. diweddaru aelodau o'r gwaith sy'n mynd ymlaen o gefnogi Cynghorau sydd â diddordeb cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau,

3. cefnogaeth sydd ei hangen i hwyluso'r gwaith uchod.

Mae'r cyfarfod oherwydd yr her sy'n wynebu Cyngor Gwynedd gyda thoriadau i wasanaethau bydd yn cael eu rhoi ger bron y Cyngor Llawn am benderfyniadau ar 3 Mawrth 2016.

Bydd y cyfarfod yn Ysgol y Gader, Dolgellau (lle agosaf) ar 1/3/2016 am 6.00yh. Maent eisiau gwybod pwy fydd yn mynychu'r cyfarfod cyn 19/2/2016.

Rhoddwyd gwybod o'r cyfarfod i'r aelodau ar Chwefror 10, 2016.

b. Lythyr (15/2/2016) oddi wrth Ombwdsmon. Maent yn rhoi gwybod mae copi o Egwyddorion Gweinyddu Da a Rheoli Cofnodion yn Dda ar gael ar eu gwefan.

c. Llythyr (18/2/2016) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae eu hadroddiad blynyddol 2016/17 ar gael ar eu gwefan.

ch. Galwad ffôn (24/2/2016) oddi wrth Adran Iechyd a Diogelwch, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae angen tynnu bracet neu roi mainc newydd yn Lloches Bws yn Llanelltyd. Mae yn beryg fel y mae.

Rhoddwyd gwybod i W.R. Evans & Son i wneud y gwaith.

d. Llythyr (23/2/2016) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent am ailwynebu cylchfan Llanelltyd i Eglwys St. Illtyd ar y ffordd A470.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

10. Materion Brys

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc

Eitem unrhyw fater arall

Materion i'w codi yn y Cyfarfod gan y Cynghorwyr

Problem:

Gwaith angen ei wneud i ddatrys y broblem:

Lleoliad y broblem:

Problem:

Gwaith angen ei wneud i ddatrys y broblem:

Lleoliad y broblem: